Polisi Diogelu Data

Diwygiwyd (23 Hydref 2014)

1. Canllawiau

Nid yw Cymdeithasau Gwenynwyr fel arfer yn casglu llawer o wybodaeth bersonol neu sensitif ond mae dyletswydd ar unrhyw gorff sy'n casglu ac yn cadw gwybodaeth bersonol adnabyddadwy i brosesu'r wybodaeth honno'n unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Yn achos Cymdeithas Gwenynwyr Cymru a'i Haelod-Gymdeithasau byddai hyn yn gymwys, fan leiaf, i unrhyw wybodaeth a gasglwyd ac sy'n cael ei chadw ar ffurf papur neu'n electronig am ei haelodau neu am unigolion a all fod wedi rhoi gwybodaeth bersonol neu sensitif cyn ymweliad â Gwenynfa neu yn ystod ymweliad.

Wyth egwyddor y Ddeddf yw, yn gryno, fod rhaid i wybodaeth:

a) Gael ei phrosesu'n deg ac yn gyfreithiol
b) Bod wedi'i phrosesu at ddibenion penodol
c) Bod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol
ch) Bod yn gywir ac yn gyfredol
d) Peidio â chael ei chadw'n hwy nag sydd angen
dd) Bod wedi'i phrosesu'n unol â hawliau unigolion
e) Bod wedi'i chadw'n ddiogel
f) Peidio â chael ei throsglwyddo'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb ddiogelwch digonol

Mewn Aelod-Gymdeithasau, lle mae'r ddyletswydd ar unrhyw bwyllgor rheoli, mae'r gofynion yn fwyaf tebygol o effeithio ar swyddogion fel yr Ysgrifennydd, y Swyddog Ariannol a Rheolwr y Wenynfa er y byddant yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cadw gwybodaeth bersonol ar ran y Gymdeithas, pa mor fyr bynnag yw'r cyfnod.

2. Polisi

Polisi Cymdeithas Gwenynwyr Cymru yw cydsynio'n ffurfiol â Rheoliadau Diogelu Data ac unrhyw arweiniad cysylltiedig ac i'r diben hwn rhaid i bob Ymddiriedolwr a Swyddog ddilyn y rheolau syml canlynol:

a) Casglu cyn lleied o wybodaeth sydd ei angen yn unig at y diben penodol
b) Defnyddio gwybodaeth yn unig at y diben y caiff ei chasglu
c) Peidio â rhannu neu drosglwyddo'r wybodaeth i unrhyw un arall heb ganiatâd penodol yr unigolyn
ch) Cadw'r wybodaeth yn ddiogel: Rhaid i wybodaeth electronig gael ei diogelu â chyfrinair a rhaid i gopïau caled (papur) gael eu cloi i gadw'n ddiogel
d) Gofalu wrth anfon e-byst sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif neu bersonol Cyfeirio'r rhain at unigolion yn hytrach nag anfon at gysylltiadau grŵp

dd) Bod â system yn ei lle i gadw gwybodaeth yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys, pan na fydd angen y wybodaeth bellach, ei bod yn cael ei dileu'n brydlon, yn ddiogel ac yn effeithiol yn electronig a'i llarpio neu ei llosgi os yw ar ffurf papur. Bydd angen dileu gwybodaeth bersonol o gyfrifiadur personol swyddog hefyd os bydd yr unigolyn hwnnw'n peidio ag ymgymryd â'r rôl honno.

3. Aelod-Gymdeithasau

Cynghorir pob Aelod-Gymdeithas sy'n aelodau o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru i lunio set debyg o reolau syml ar gyfer ei swyddogion ei hun ac i sicrhau eu bod yn cytuno i gydymffurfio â'r rheolau hynny.